

Adolygiad o Ddarpariaeth Addysg yn Ysgol y Preseli a'i hysgolion clwstwr



...dweud eich barn!



Mae'r ddogfen hon yn cynrychioli man cychwyn adolygiad o ddarpariaeth addysg yn Ysgol y Preseli a'i hysgolion clwstwr. Mae'n rhoi ychydig o wybodaeth cefndirol am yr ysgolion mewn cwestiwn.



Caiff rhai o'r materion sydd angen ystyriaeth eu cynnwys yn y ddogfen hon ond efallai bod rhai eraill; mae modd cyfrannu rhai eraill drwy'r holiadur, naill ai yn y ddogfen hon neu ar y wefan.

www.sir-benfro.gov.uk/dweud-eich-dweud

Dyma eich cyfle CHI i ddweud EICH barn wrthym.

Bydd yr Ymgysylltu Rhagarweiniol yn dechrau ar 3 Mehefin 2019 ac yn dod i ben ar 5 Gorffennaf 2019

DARPARIAETH ADDYSG YN YSGOL Y PRESELI A'I HYSGOLION CYFLENWI

Cyn mis Medi 2018, Ysgol y Preseli oedd yr unig ysgol uwchradd Gymraeg yn Sir Benfro ac, o ganlyniad, denodd ddisgyblion nid yn unig o'i dalgylch dynodedig, ond hefyd o amryw gylchoedd eraill y tu hwnt. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried Ysgol y Preseli'n benodol, a'r prif ysgolion presennol sy'n ei bwydo, sef:

Ysgol Llandudoch	Ysgol Hafan y Môr, Dinbych-y-pysgod
Ysgol Cilgerran	Ysgol GG Arberth*
Ysgol Eglwyswrw	
Ysgol y Frenni, Crymych	
Ysgol Clydau, Tegryn	Ysgol Bro Ingli, Trefdraeth**
Ysgol Maenclochog	Ysgol Llanychllwydog, Cwm Gwaun**
Ysgol Brynconin, Llandysilio-yn-Nyfed	Ysgol Cas-mael**

*Mae Ysgol GG Arberth o fewn Clwstwr Ysgolion Dinbych-y-pysgod, ond byddai disgwyl i ddisgyblion sy'n mynychu ei Ffrwd Cymraeg drosglwyddo i ddarpariaeth uwchradd Gymraeg yn Sir Benfro.

**Mae Ysgol Bro Ingli, Ysgol Llanychllwydog ac Ysgol Cas-mael yng Nghlwtwr Ysgolion Abergwaun ac, fel arfer, byddai disgwyl i ddisgyblion drosglwyddo i Ysgol Bro Gwaun. Fodd bynnag, bydd rhieni'n aml yn dewis anfon eu plant i Ysgol y Preseli. Nid yw Ysgol Bro Gwaun yn rhan o'r adolygiad yma.

Ac eithrio Ysgol GG Arberth, dynodwyd yr holl ysgolion a restrwyd uchod yn Ysgolion Cymraeg. Mae Ysgol GG Arberth yn ysgol ddwy ffrwd. Dynodwyd Ysgol y Preseli'n Ysgol Ddwyeithog.

Dewis y Rhieni:

- Yn unol â rheoliadau sy'n llywodraethu derbyn plant i ysgolion, fe all rhieni nodi unrhyw ysgolion sy'n well ganddynt. Hyd yn ddiweddar, Ysgol y Preseli oedd unig ysgol uwchradd Gymraeg y Cyngor ac, felly, mae disgyblion o bob rhan o'r sir wedi mynychu'r ysgol ac wedi elwa ar gludiant di-dâl rhwng cartref ac ysgol. Ar ôl sefydlu Ysgol Caer Elen, mae angen diffinio dalgylchoedd mwy eglur, sy'n arbennig o berthnasol i ddisgyblion Ysgol Hafan y Môr ac Ysgol GG Arberth. Mae trefniadau trawsnewidiol yn bodoli ar hyn o bryd lle gall rhieni disgyblion sy'n mynychu'r ysgolion hyn ddweud bod yn well ganddynt Ysgol y Preseli neu Ysgol Caer Elen gyda chludiant di-dâl.
- Mewn cysylltiad â lleoliad Ysgol y Preseli ac agosrwydd rhai o'i hysgolion cyflenwi at awdurdodau cyfagos, mae rhywfaint o symudiad disgyblion ar draws ffiniau.

Disgyblion:

- Fel yr oedd pethau ym mis Ionawr 2019, roedd 2071 o ddisgyblion ar gofrestrï'r ysgolion a enwyd uchod (mewn cysylltiad ag Ysgol GG Arberth, mae'r ffigwr hwn yn cynnwys disgyblion y ffrwd Gymraeg yn unig);
- Mewn cysylltiad ag Ysgol y Preseli, ac ar sail cyfrifiad disgyblion 2018, mae dros hanner y disgyblion sy'n mynd i'r ysgol yn teithio o'r tu allan i dalgylch dynodedig yr ysgol, fel a ganlyn:

Dalgylch Ysgol y Preseli	390 (44%)
Sir Gâr	67 (8%)
Ceredigion	36 (4%)
Ardal Dinbych-y-pysgod	115 (13%)
Ardaloedd Hwlfordd ac Aberdaugleddau	135 (15%)
Ardal Penfro	46 (5%)
Ardaloedd Abergwaun a Thyddewi	89 (10%)
Cyfanswm ar y cofrestrï (lonawr 2018)	878

- Mae'r Gydastrudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai ddiweddaraf yn dangos 182 o gartrefi naill ai'n cael eu hadeiladu neu'n debygol o gael eu gorffen yn ystod y 5 mlynedd nesaf yn nalgylch Ysgol y Preseli – ar sail y fformiwla sy'n cael ei ddefnyddio i benderfynu cynnyrch disgyblion, sy'n cyfateb i 33 o ddisgyblion.
- Mae cyfradd lenwi pob ysgol yn yr adolygiad hwn yn cael ei dangos yn y ffeithlen ddata Pennawd. O ran ysgolion cynradd, mae hyn yn rhedeg o 62% yn Eglwyswrw i 92% yn Arberth.

Adeiladau:

- Mae cyflwr ac addasrwydd adeiladau ysgol yn y clwstwr yn ddarlun cymysg – mae'r ffeithlen ynghlwm yn rhoi gwybodaeth am y graddiadau swyddogol ar gyfer pob ysgol.
- Dim ond un o'r ysgolion a adeiladwyd o'r newydd yn ddiweddar, h.y. Ysgol GG Arberth, ond mae'r mwyafrif wedi elwa ar ailwampio ac estyniadau sylweddol i wella'u cyflwr ac addasrwydd yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf.
- Mae cyflwr ac addasrwydd Ysgol y Preseli'n peri pryder ac fe nodwyd yr ysgol i'w ystyried fel rhan o unrhyw Raglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif yn y dyfodol, h.y. Band C ymlaen.

MATERION I'W HYSTYRIED

Y gobaith yw y bydd y broses ymgysylltu ragarweiniol hon yn arwain at rai syniadau y bydd modd eu hystyried, eu harchwilio a'u datblygu ymhellach. Caiff holl syniadau a ddaw i law eu hystyried ac rydym, felly, yn croesawu eich barn. Cofiwch, fodd bynnag, y gall agweddau ar gyllido a deddfwriaeth beri diystyru rhai syniadau.

Fan leiaf byddem yn dymuno ystyried y canlynol:

- Gallu cadw rhwydwaith o ysgolion cynaliadwy yng nghyd-destun:
 - darbodaeth barhaol a lleihau cyllidebau,
 - yr heriau'n deillio o anhawster denu penaethiaid addas i ysgolion bach, gan gynnwys cydbwysu gwaith a bywyd y rhai sydd â chyfrifoldeb addysgu sylweddol,
 - demograffeg sy'n newid yn gyflym, gan gynnwys symudiad rhwng gwlad a thref a thai newydd.

Er engraifft, gall hyn fod yn rhan o ffederasiwn o ysgolion. Mae ffederasiwn yn galluogi ysgolion i weithio gyda'i gilydd trwy broses strwythuedig ffurfiol drwy rannu corff llywodraethu a fydd yn gwneud penderfyniadau er lles yr holl ysgolion, staff a disgyblion yn y ffederasiwn. Gallai hyn arwain at well datblygiad proffesiynol, cadw staff, mwy o adnoddau ar gael a'r gallu i ddenu arweinwyr o ansawdd uchel. Er engraifft, yn achos ysgolion Tafarnspeit a Thredeml, mae'r ysgolion yn parhau i fod yn endidau ar wahan sy'n gwasanaethu eu cymunedau, ond mae ganddynt un corff llywodraethu a un pennaeth.

- Cyfrannu at nod Llywodraeth Cymru o gyflawni miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y Cyngor;
- Adolygu dalgylchoedd ysgolion a ffurfioli trefniadau mewn cysylltiad ag Ysgol GG Arberth ac Ysgol Hafan y Môr fel ysgolion cyflenwi;
- Ystyried yr angen am ddarpariaeth arbenigol seiliedig ar adnoddau ar gyfer disgyblion gydag anghenion Dysgu / Ymddygiadol Ychwanegol trwy gyfrwng y Gymraeg;
- Sicrhau bod amgylcheddau dysgu mewn cyflwr da ac yn addas ar gyfer dysgu ac addysgu'r 21^{ain} ganrif;
- Gyda golwg ar y '*rhagdybiaeth yn erbyn cau*' ysgolion gwledig fel y diffiniwyd yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018).

Y CAMAU NESAF

Yn dilyn cloi'r gwaith ymgysylltu hwn, byddwn yn crynhoi'r holl ymatebion a gawn ac yn eu cynnwys mewn adroddiad i'r Cyngor Sir ei ystyried; yn ôl pob tebyg, bydd hyn ym mis Hydref 2019. Fe all yr adroddiad hwn hefyd gynnwys argymhellion i'r Cyngor ar y ffordd ymlaen.

Dywedwch eich barn wrthym yn yr holiadur atodol

neu

ar-lein: www.sir-benfro.gov.uk/dweud-eich-dweud

neu

e-bost: EducationConsultations@pembrokeshire.gov.uk

neu

anfon llythyr i: Cyfarwyddiaeth Plant ac Ysgolion,
Neuadd y Sir, Hwlfordd, SA61 1TP

Data Pennawd – Ffeithlen

	Capasiti	Disgyblion ym mis Ionawr 2019		% Lenwi		Dosbarthiad 2018	% prydu am ddim (cymedr 3 blynedd)	Adeiladau	
		Llawn-amser	Rhan-amser	Ionawr 2019	Ionawr 2023			Cyflwr	Addasrwydd
Ysgol y Preseli	1018	807	0	79%	78%	Gwyrdd	4.4%	C	C
Frenni	210	170	6	81%	68%	Melyn	6.8%	A	A
Clydau	71	55	0	77%	91%	Melyn	20.4%	C	B
Eglwyswrw	142	109	0	77%	62%	Melyn	0.4%	B	B
Maenclochog	116	94	2	81%	90%	Melyn	5.4%	B	B
Brynconin	89	76	4	85%	84%	Ambr	9.7%	C	C
Cilgerran	133	109	12	82%	87%	Melyn	8.1%	B	B
Llandudoch	128	102	6	80%	64%	Melyn	8.6%	B	B
Arberth	330	293	10	89%	92%	Melyn	9.2%	A	A
Hafan y Môr	210	128	33	61%	89%	Melyn	8%	B	B
Bro Inqli	110	99	13	90%	73%	Ambr	2%	B	B
Cas-mael	70	63	0	90%	81%	Gwyrdd	9%	C	B
Llanychlwydog	31	21	0	68%	64%	Melyn	0%	C	C

DARPARIAETH ADDYSG YN YSGOL Y PRESELI a'i HYSGOLION CLWSTWR




Ymgysylltu Rhagarweiniol – Ffurflen Ymateb

1) Dywedwch eich barn wrthym ar gynnal darpariaeth addysg cynaliadwy yng nghlwstwr y Preseli, e.e. mewn ffurf ffederasiwn rhwng ysgolion.

2) Mae'n gallu bod yn sialens denu a dal gfael ar benaethiaid ysgolion bach. Dywedwch eich barn wrthym a rhowch eich syniadau ynghylch hyn, e.e. mewn ffurf ffederasiwn rhwng ysgolion.

3) Rhowch eich syniadau i ni ynghylch darparu ar gyfer cymorth Anghenion Dysgu / Ymddygiadol Ychwanegol trwy gyfrwng y Gymraeg.



4). Defnyddiwch y lle hwn i ddweud wrthym am unrhyw syniadau eraill y gallwch eu hawgrymu ar gyfer newid.



6) Beth yw eich diddordeb yn yr ymgynghori? (ticiwch bob un sy'n berthnasol)

- | | |
|---|--|
| <input type="checkbox"/> Rhiant cyn ysgol | <input type="checkbox"/> Ysgol y Preseli |
| <input type="checkbox"/> Rhiant | <input type="checkbox"/> Ysgol y Frenni |
| <input type="checkbox"/> Staff | <input type="checkbox"/> Ysgol Clydau |
| <input type="checkbox"/> Llywodraethwr | <input type="checkbox"/> Ysgol Eglwyswrw |
| <input type="checkbox"/> Preswlydd lleol | <input type="checkbox"/> Ysgol Maenclochog |
| <input type="checkbox"/> Aelod Etholedig | <input type="checkbox"/> Ysgol Brynconin |
| <input type="checkbox"/> Arall | <input type="checkbox"/> Ysgol Cilgerran |
| | <input type="checkbox"/> Ysgol Llandudoch |
| | <input type="checkbox"/> Ysgol Hafan y Môr |
| | <input type="checkbox"/> Ysgol GG Arberth |
| | <input type="checkbox"/> Arall _____ |

7) Ydych chi'n? (ticiwch un yn unig)

- | | | |
|---|---|--------------------------------------|
| <input type="checkbox"/> 16 oed neu iau | <input type="checkbox"/> 17 – 24 oed | <input type="checkbox"/> 25 – 64 oed |
| <input type="checkbox"/> 65 oed neu hŷn | <input type="checkbox"/> Dewis peidio â dweud | |

8) Beth yw eich iaith gyntaf? (ticiwch un yn unig)

- | | | |
|----------------------------------|----------------------------------|---|
| <input type="checkbox"/> Cymraeg | <input type="checkbox"/> Saesneg | <input type="checkbox"/> Dewis peidio â dweud |
|----------------------------------|----------------------------------|---|

Arall (rhowch fanylion) _____

9) A oes gennych chi salwch neu gyflwr sydd wedi para, neu y mae disgwyl iddo bara, am 12 mis neu fwy yn cyfyngu ar eich gweithgareddau cyffredin? (ticiwch un yn unig)

- | | | |
|------------------------------|----------------------------------|---|
| <input type="checkbox"/> Oes | <input type="checkbox"/> Nac oes | <input type="checkbox"/> Dewis peidio â dweud |
|------------------------------|----------------------------------|---|

10) Ydych chi'n gofalu am rywun (19 oed neu iau) sydd â salwch neu gyflwr sydd wedi para, neu y mae disgwyl iddo bara, am 12 mis neu fwy yn cyfyngu ar eu gweithgareddau cyffredin? (ticiwch un yn unig)

- | | | |
|------------------------------|----------------------------------|---|
| <input type="checkbox"/> Ydw | <input type="checkbox"/> Nac ydw | <input type="checkbox"/> Dewis peidio â dweud |
|------------------------------|----------------------------------|---|

11). Beth yw eich crefydd? (ticiwch un yn unig)

- Dim crefydd
- Cristionogol (holl enwadau)
- Bwdaidd
- Hindŵaidd
- Iddewig
- Moslemaidd
- Sicaidd
- Dewis peidio â dweud

Arall, rhowch fanylion _____

Ar ôl ei llenwi, dychwelwch i: Cyfarwyddwr Plant ac Ysgolion, Cyngor Sir Penfro, Neuadd y Sir, Hwlfordd, SA61 1TP

Fel arall llenwch hi ar-lein trwy - www.sir-benfro.gov.uk/dweud-eich-dweud

Sylwch y dylid derbyn gohebiaeth erbyn 5 Gorffennaf 2019 fan bellaf

Diolch i chi am eich cyfranogiad.